

## YR HYN SYDD YN Y DYFODOL AGOS!

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Fe wŷyr Tystion Jehofah beth sydd yn y dyfodol agos, ond medrwech helpu'r gynulleidfa i fod yn fwy ymwybodol o hyn. Rhaid i'r rhai fydd yn dod allan yn oroeswyr eu paratoi eu hunain 'nawr i dderbyn y sefyllfa ddatblygol a bod yn barod i addasu i gyfarwyddyd theocratiaid

### **MAE GAN BAWB OHONOM DDIDDORDEB YN Y DYFODOL** (6 mun.)

Onid ydych chi'n pryderu am eich dyfodol? am ddyfodol eich teulu?

Beth ddylech chi ei astudio yn yr ysgol? 'Wnewch chi briodi? 'Ddylech chi brynu cartref? 'Ddylech chi gychwyn eich busnes eich hun? 'Ddylech chi symud i ardal arall?

Gall rhai pryderon ynglŷn â'r dyfodol ymddangos yn arbennig o hanfodol

'Fydd chwyddiant yn dinistrio'ch sicrwydd ariannol chi? Sut byddwch yn talu rhent neu brynu bwyd? 'Fydd cyflenwadau bwyd yn dod i ben? (g80 1/22 5-15) 'Fydd pethau sy'n peryglu'ch iechyd a'ch diogelwch chi'n cynyddu? 'All y cenhedloedd atal cychwyn rhyfeloedd? (g90 5/22 28; g90 9/8 7)

Mae llawer yn ceisio atebion gan ddadansoddwyr newyddion neu ddadansoddwyr ariannol, gwleidyddion, gwyddonwyr; mae eraill yn troi at sêr-ddewiniaeth, canfyddiad allsynhwyrdd (ESP)

Mae gan y Beibl lawer i'w ddweud am y dyfodol—nid dyfaliadau, ond gwir wybodaeth yn dod oddi wrth yr Un a wŷyr yn drachywir (Eseia 42:9; 46:9, 10)

Rhagfynegodd ryfeloedd, torcyfraith, prinder bwyd ar gyfer ein cenhedlaeth ni

Beth sydd eto i ddod? Sut bydd yn effeithio arnoch chi? 'Fydd eich dyfodol yn hapus?

### **MAE GAIR DUW YN DATGUDDIO'R DYFODOL AGOS** (10 mun.)

Mae cyflawniad yr "arwydd" cyfansawdd yn dangos ein bod ni yn niwedd y byd (Mth 24:3, 7-14)

Mae'r Beibl yn galluogi Cristnogion i fod yn benodol ynglŷn â blwyddyn geni'r Deyrnas yn y nef yn 1914, a'r digwyddiadau sydd i ddilyn (tp 70; g89 7/8 20)

Mae'r cenhedloedd 'nawr yn cael eu casglu i'w dinistrio yn Armagedon (w90 5/15 3-7)

Diogelir y cyflawn; daear newydd i ddilyn

Beth fydd yn digwydd rhwng 'nawr a'r diwedd? Pedwar datblygiad sylfaenol:

(1) Sefyllfa ryngwladol sy'n ymddangos fel petai yn cyflawnhau cri heddwch a diogelwch; dyma'r arwydd terfynol fod dinistr byd i gychwyn (1Thes 5:3; tp 85; g88 4/8 14; w91 9/1 5-6)

(2) Wedi'i chyffroi gan rhyw ddatblygiad, bydd yr elfen wleidyddol yn troi ar Fabilon Fawr, ymerodraeth fyd-eang gau grefydd, a'i difa, gan gychwyn y "gorthrymder mawr" (Dat 7:14; 17:16; 18:8, 21; w89 4/15 14-15; re 256-7, 269)

(3) Wrth weld gweision Cristnogol Jehofah yn byw mewn heddwch, bydd Satan (Gog) yn cyfeirio ymosodiad mileinig i'w herbyn drwy gyfrwng y cenhedloedd (Esec 38:11, 16; kj 361; sl 258-9; w88 9/15 25-6)

(4) Fel adwaith i hyn, daw Jehofah â rhan derfynol y gorthrymder mawr, dinistr yr holl wrthwynebwy'r daearol fydd ar ôl yn rhyfel dydd mawr Duw Hollalluog, a'i ddilyn drwy selio Satan a'i gythreuliaid yn y pydew diwaelod (Esec 38:18-22; kj 366-7; sl 262, 265; w90 5/15 6; w88 9/15 26)

Yna bydd Duw yn hebrwng byd newydd dan Deyrnas mil-blynnyddoedd Crist; mae hynny hefyd yn y dyfodol agos

### **MAE'R DYFODOL A DDISGRIFIA'R BEIBL YN SICR** (8 mun.)

Mae tystiolaeth helaeth yn profi i'r Deyrnas gael ei geni yn 1914 (Dat 12:5, 10)

Crist 'nawr yn teyrnasu'n Frenin yn y nef, fel y dengys cronoleg Feiblaidd (Salmau 110:1, 2; w84 4/15 3-4)

Mae cyflawniad "arwydd" presenoldeb Crist yn profi fod y dyfodol agos yn cynnwys diwedd llwyr y drefn ddrygionus hon (Mth 24:3; w78 1/15 8-10; g73 10/8 16-22)

Bydd y dyfodol agos yn cynnwys y pedwar datblygiad a drafodwyd eisoes

I wir Gristnogion, mae'r dyfodol agos yn cynnwys goroesi i fyd newydd

Sail gobaith bywyd tragwyddol ym Mharadwys (Seff 2:2, 3; w75 681-3)

### **BYDDWCH YN BAROD AR GYFER YR HYN SYDD YN Y DYFODOL AGOS** (9 mun.)

Wrth i broblemau gynyddu, hawdd caniatáu iddynt fynd â'n holl sylw

Gall arian, helyntion yn yr ysgol, sicrhau bwyd, anghyfiawnderau cymdeithasol, llygredd gwleidyddol, ac yn y blaen, ein llygad-dynnu, a phylu ein gweledigaeth o'r dyfodol

Gall ddigwydd hyd yn oed i Gristnogion sydd wedi bod yn y gwirionedd am amser hir

Yn hytrach, dylai problemau cynyddol gryfhau ein ffydd a chadarnhau ein gobaith (Iago 1:2, 3)

Bydd gobaith yn ein galluogi i osgoi pwysau a phethau eraill sy'n ymyrryd

Cred gadarn ein bod 'nawr ym 'mhresenoldeb' anweledig Iesu (Iago 5:8 NW; w75 9-11)

Rhaid bod yn wyliaidwyr, disgwyl am "ddyfodiad" sydd i ddod fydd yn dileu pob drygioni oddi ar y ddaear (Mth 24:36-42; ka 332-5; su 50, 53)

Gan ein bod yn gwybod am y dyfodol agos, 'ddylem ni ddim cael ein syfrdanu gan ddatblygiadau  
'Fydd cri dros dro am heddwch a diogelwch ddim yn ein twyllo ni (*w76 441-2; tp 85; w87 5/15 17-19*)  
Fe dwyllir y byd ond nid felly addolwyr ymroddedig Jehofah  
Gall y bydd dinistr eang iawn, tywallt gwaed, wrth i gau grefydd ddiweddu  
Mae'n debyg y bydd ymyrraeth â chyflenwadau bwyd, trais rhwng pobl farus  
Gall y bydd caledi economaidd eithafol yn wynebu gweision Duw  
Wedi'n rhybuddio, disgwyliwn am Jehofah (*Hab 3:17, 18; w73 758-9; g80 8/22 5-8*)

**MEDRWCH CHI FWYNHAU DYFODOL TRAGWYDDOL** (12 mun.)

Bydd y gorthrymder mawr yn gwaredu'r ddaear rhag y rheiny nad ydynt am wasanaethu Duw (*2Thes 1:6-9*)  
Bydd y rhai a gymeradwyir gan Dduw, yn y dyfodol agos, yn cael mynediad i ddaear lân, a ddaw yn gynyddol well  
Bydd llawer o waith i'w wneud i ddileu olion dinistr, yn paratoi lleoedd i fyw ynddynt, yn tyfu bwyd (*Esec 39:9-13; w89 8/15 14*)  
Bydd iechyd yn gwella  
'Fyddwn ni ddim yn berffaith ar unwaith; er hynny, bydd yn adeg hyfrydwch cynyddol (*Dat 20:5; w91 12/15 12; re 290; rs 338-9*)  
'Rydym yn arddangos Cristnogaeth 'nawr; mae hyn yn ein helpu i ymdopi â phroblemau; felly y bydd yn y drefn newydd  
Bydd meithrin y nodweddion cywir 'nawr yn cyflymu addasu wedi Armagedon (*lp 171-4*)  
Mae bendithion y gorffennol yn gosod patrwm y pethau sydd i ddod (*lp 143-56*)  
Bydd yn cynnwys iechyd, bwyd, rhyddid, a gwaith sy'n bodloni (*tp 96-104*)  
'Does dim amheuaeth ynglŷn â'r hyn sy'n ein haros yn y dyfodol agos; mae addewidion Duw yn sicr (*Dat 21:5; re 303-4*)  
Mae'r hyn sy'n eich aros chi yn y dyfodol yn dibynnu ar yr hyn a wnewch 'nawr (*tp 91-3*)  
Parhewch i ennill gwybodaeth drachywir  
Gnewch gynnydd tuag at eich cyflwyno'ch hunan i Jehofah, a chael eich bedyddio  
Os ydych eisoes wedi'ch bedyddio, hyrwyddwch wir addoliad â'ch holl galon  
Bydded i'ch gwybodaeth am y dyfodol agos fod yn sail i'ch bywyd 'nawr (*w80 6/1 8-10*)  
(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)